# CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 17 IONAWR 2024 AM 2.30PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd), J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), E. Tong (Rheolwr Gwasanaethau Theatr a Chelfyddydau), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Sykes (Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), A. Bolter (Rheolwr Economi Ymwelwyr a Chyrchfannau) a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr).

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON A GYNHALIWYD AR 28 MEHEFIN 2023.**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD O GYFRIFON SEFYDLIAD Y GLOWYR, COED DUON – Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023.**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr o weithgareddau gweithredol a sefyllfa ariannol Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Nododd y Cabinet fod gan yr awdurdod lleol, sy'n gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr corfforaethol, ddyletswydd gyfreithiol i weithredu'r elusen yn unol â'r ddogfen lywodraethu ac mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i roi cyfrif am gyllid yr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Atgoffwyd y Cabinet fod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, ar 27 Gorffennaf 2016, a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r gofynion statudol sy'n ymwneud â statws elusennol Sefydliad y Glowyr, Coed Duon. Yn dilyn hynny, cymeradwywyd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau o ran cyflwyno adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol, rheolaeth barhaus Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr.

Rhoddwyd yr adroddiad blynyddol a'r datganiad o gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2022/23 i'r Cabinet.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam mae'r archwilydd annibynnol wedi codi mater o bryder mewn perthynas â'r driniaeth o arian parod a balansau cyfwerth ag arian parod yn y cyfrifon ar gyfer 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151 sicrwydd i'r Cabinet mai addasiad datgeliad cyfrifyddu yw hwn ac nad yw'n effeithio ar sefyllfa ariannol Canolfan y Celfyddydau na'r Cyngor. Eglurodd y Swyddog ymhellach fod cyfrifon Canolfan y Celfyddydau yn cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a bod y Ganolfan yn defnyddio cyfrif banc yr Awdurdod i reoli ei llif arian dyddiol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhoi cymhorthdal llawn i Ganolfan y Celfyddydau drwy ariannu unrhyw ddiffyg ariannol sy'n deillio o'i gweithgareddau gweithredu blynyddol. Gan fod Canolfan y Celfyddydau yn defnyddio cyfrif banc y Cyngor i reoli'r llif arian dyddiol, nid yw'n bosibl gwahanu'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r pryderon a godwyd gan Archwilio Cymru wedi'u hystyried a bydd y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu yn y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn osgoi codi'r pryderon hyn yn y dyfodol.

Cofnododd y Cabinet yn ffurfiol eu diolch i Dîm Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, y gwerthiant tocynnau uwch na'r disgwyl, a'r gwaith caled dan sylw.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

Nodi, ystyried a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 14:41.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod nesaf.

________________________

CADEIRYDD